## Awgrymiadau gwych ar gyfer denu staff sy'n rhannu eich gwerthoedd ac ymwreiddio gwerthoedd yn eich hysbysebion

- Cyn i chi hysbysebu, meddyliwch am y **mathau o bobl mae arnoch eisiau eu cyrraedd** a'u recriwtio. A oes demograffeg penodol neu fath o brofiad y byddech yn gwerthfawrogi ei ychwanegu at eich tîm? Beth yw'r peth pwysicaf i'r bobl hyn a sut y gallwch chi werthu eich gwerthoedd er mwyn iddyn nhw fod eisiau ymgeisio am eich swyddi?

**Gwahanol ddulliau o ddenu a thargedu ymgeiswyr:**

- Ar fyrddau swyddi a gwefannau recriwtio
- Ar eich gwefan eich hun
- Mewn papurau lleol a siopau lleol, ac ar hysbysfyrddau cymunedol
- Ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Instagram, Twitter, LinkedIn)
- Mewn ffeiriau gyrfaoedd
- Mewn diwrnodau agored
- Drwy gynlluniau cyfeirio gweithwyr

- Meddyliwch am staff rydych chi wedi eu **recriwtio yn y gorffennol** sydd wedi arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau eich gweithle yn eu gwaith. O ble daeth y staff hynny a pha gyfryngau hysbysebu wnaeth eu denu nhw?
- Holwch eich staff presennol beth ynglŷn â'ch **hysbysebion wnaeth werthu eich diwylliant a'ch gwerthoedd** chi iddyn nhw, er mwyn i chi allu defnyddio'r negeseuon hynny yn eich hysbysebion.
- Ceisiwch gael **casgliad o wahanol hysbysebion** ar gyfer gwahanol rolau ac i apelio at werthoedd a chymhellion y gwahanol grwpiau mae arnoch eisiau eu targedu.
- Rhannwch eich gwerthoedd a beth sy'n eich gwneud yn unigryw fel gweithle a Chartref Plant wrth hysbysebu eich swyddi. Gofynnwch gwestiynau er mwyn gwneud cysylltiad rhwng gwerthoedd eich gweithle chi a'u gwerthoedd nhw. Er enghraifft:
  - **"Ydych chi'n rhannu'r gwerthoedd hyn?" neu "Ydy'r gwerthoedd hyn yn bwysig i chi?**
  - **"Ydych chi'n hoffi gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc?" "Oes gennych chi natur ofalgar?"**

- Lluniwch hysbysebion a gwybodaeth mewn **pecynnau recriwtio** ac ar eich gwefan sy'n cynnwys **enghreifftiau go iawn o staff yn rhoi eich gwerthoedd ar waith.** Er enghraifft, astudiaeth achos yn dangos gweithiwr gofal preswyl i blant yn gwneud gwahaniaeth i fywyd plentyn neu berson ifanc drwy ei waith.
- **Os nad oes angen profiad** ar gyfer y rôl, nodwch hynny'n glir yn eich hysbyseb. Dywedwch wrth bobl eich bod yn chwilio am rywun sydd â'r gwerthoedd a'r

ymddygiadau cywir, ac y bydd yr ymgeisydd priodol yn cael ei gefnogi i ddysgu unrhyw sgiliau angenrheidiol. Peidiwch ag ofni nodi bod cymhwyster neu brofiad yn hanfodol.

- Meddyliwch ymlaen llaw beth mae arnoch eisiau i bobl ei wneud mewn ymateb i'ch hysbysebion, a sut y gall eich proses recriwtio roi cyfle iddyn nhw brofi eich gwerthoedd a'ch diwylliant.
    - **Ydych chi eisiau i bobl ffonio am sgwrs anffurfiol neu a fydd hi'n anodd darparu adnoddau ar gyfer hynny?**
    - **A fyddai'n haws cynnal bore coffi 'galw heibio' lle gallech sgwrsio ag ymgeiswyr posibl mewn lleoliad anffurfiol?**
    - **Os yw eich gwerthoedd yn cynnwys parch a thosturi, sut fydd y broses yn eu parchu nhw, eu hamser a'r wybodaeth y mae nhw'n ei rannu gyda chi?**
    - **Sut allwch chi rannu gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n digwydd yn eich gweithle, eich gwerthoedd ar waith, a'ch hanesion am lwyddiant er mwyn cadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr rhwng gwahanol gamau o'r broses recriwtio a dilysu?**
- Dylech gynnwys datganiad yn nodi y bydd angen **Gwiriad Cofnod Troseddol** ac yn egluro ar ba lefel y cynhelir y gwiriad (os yw'n berthnasol i'r swydd). Mae hyn yn **gyfle i chi gadarnhau a chysylltu â'ch gwerthoedd**, er enghraifft, yn dangos parch yn y ffordd y byddwch chi'n trin gwybodaeth, a diogelu fel rhan o ymrwymiad eich sefydliad i ddiogelu a chanolbwyntio ar y plentyn.
- Gall gofal cymdeithasol, yn enwedig gofal cymdeithasol i blant, gael ei weld fel gyrfa i fenywod, ac mae'n bosibl bod hysbysebion a manylebau person sy'n defnyddio geiriau fel 'meithrin' yn apelio mwy at fenywod nag at ddynion. Gall yr offeryn dadgodydd rhywedd hwn helpu i niwtraleiddio'r iaith a ddefnyddir.

  Mae ymgyrch recriwtio Gofalwn Cymru yn rhoi sylw i ddynion a pham maen nhw'n dewis gweithio ym maes Gofal Preswyl i Blant.
- Dylech gynnwys datganiad sy'n dangos eich **ymrwymiad i gynhwysiant** a gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n anabl a niwrowahanol yn gallu rhannu eu gwerthoedd gyda chi mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu unrhyw addasiadau neu gymwysiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymgeiswyr anabl a niwrowahanol. O ganlyniad, gadewch i ni wybod os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol fel rhan o'r broses recriwtio neu gyfweld. Rydyn ni'n fwy na pharod i helpu, a gallwn wneud awgrymiadau os nad ydych yn siŵr beth sydd ar gael.

Os ydych yn ei chael yn anodd i ddeall unrhyw rai o'r gwerthoedd neu'r ymddygiadau uchod, neu sut y gallech fod wedi arddangos y rhain, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

**Enghreifftiau o hysbysebion i ddenu staff sy'n rhannu gwerthoedd eich gweithle.**

## Gweithiwr gofal preswyl i blant

Ydych chi'n poeni am y plant a'r bobl ifanc sydd yn eich cymuned?

Hoffech chi ddod i'r gwaith bob dydd gan wybod eich bod am wneud gwahaniaeth i fywyd plentyn neu berson ifanc?

Os ie, yna mae gennym ni gyfleoedd i unigolion **tosturiol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn** ddod i weithio gyda ni fel **rhan o dîm rhagorol** yng Nghartref Plant Thrive. Ein bwriad yw i ddarparu amgylchedd sy'n ysgogi ac yn meithrin, er mwyn galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn llawn.

Mae'r rôl yn heriol ond yn rhoi llawer o foddhad. Bydd yn ofynnol i chi weithio shifftiau ar rota, gan gynnwys gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau, ac ar wyliau banc, a chysgu i mewn fel rhan o'ch dyletswyddau. Gall ein patrymau shifftiau gynnig cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith rydych yn chwilio amdano, â'n rota 2 ar ddyletswydd, 4 i ffwrdd.

Os oes gennych y gwerthoedd, y cymhelliant a'r ymrwymiad i ymuno â ni wrth i ni drawsnewid gwasanaethau i blant a phobl ifanc, er mwyn eu galluogi i aros yn eu cymunedau a ffynnu, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol - xxxxxxx

**Swydd-ddisgrifiad**

**Ymgeisiwch nawr**

## Gweithiwr Gofal Preswyl i Blant

Ydych chi'n chwilio am gyfleoedd i wneud gwahaniaeth yn eich gwaith?
I gael eich herio mewn gyrfa sy'n rhoi boddhad wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc?

Mae profiad a chymwysterau yn ddymunol bob amser, ond ar gyfer y rôl yma **eich gwerthoedd personol a'ch agwedd sydd bwysicaf.**
Bydd cysylltu â phlant a phobl ifanc yn dod yn naturiol i chi. Byddwch yn cael boddhad wrth gefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu yn eu cymunedau a chyflawni eu potensial yn llawn.

**Pwy fyddai'n gwneud Gweithiwr Gofal Preswyl delfrydol i blant?**

Rydyn ni'n chwilio am bobl sydd yn:

- garedig, gofalgar, parchus a thosturiol
- wrandäwr da, yn amyneddgar ac yn ddiragfarn
- hyblyg ac wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc.